

“MYFI YW ALFFA AC OMEGA.”

Emyn: 523 ‘*O gariad. O gariad anfeidrol ei faint.*’

Darlleniad: Datguddiad 1:1-8, 17-18.

Neges: Beth a ddywed y darn am Iesu (a Duw)?

A. PERSON IESU.

‘Iesu Grist, y tyst ffyddlon, y cyntafanedig oddi wrth y meirw a llywodraethwr brenhinoedd y ddaear,’ 5. **Iesu:**

i) **Y Tyst Ffyddlon:** Ystyr ffyddlon yma yw, dibynadwy, un y gellir ymddiried ynddo a chredu, un sy’n siarad y gwir. Dyma yw Iesu! Gwnaeth ddatgan, *‘Myfi yw’r gwirionedd,’* Ioan 14 ac *‘er mwyn hyn y deuthum i’r byd, i dystiolaethu i’r gwirionedd,’* Ioan 18. Gwnaeth gyfleu geiriau Ei Dad.

ii) **Y Cyntafanedig oddi wrth y Meirw:** Gwyddom am eraill yn y Beibl a wnaeth godi o’r marw yn fyw. **Sut mae ei ddeall?** a) Cododd Iesu i fywyd newydd, byth i brofi marwolaeth mwyach. b) Iesu yw’r cyntaf i godi, ond bydd llawer mwy yn ei ddilyn rhyw ddydd.

iii) **Llywodraethwr Brenhinoedd y Ddaear:** Iesu yw’r Brenin pennaf yn y byd. Oes, mae arweinyddion mawr wedi bod ac ar y ddaear nawr, ond nid oes un i’w chymharu â Iesu. Bydd rhaid i bob un blygu i Iesu!

B. GWAITH IESU.

‘I’r hwn sydd yn ein caru ni ac a’n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â’i waed, ac a’n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad,’ 6. Sylwer, “Yr hwn a’n câr” ydyw. Mae’r Iesu’n fyw ac yn caru ei bobl yn awr! **Sut gwna ddangos Ei gariad?**

i) **Rhyddhau o Bechod:** *‘Fe’n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau.’* Mae gan Iesu, Mab Duw, yr awdurdod i faddau pechod ac i adfer y berthynas a dorwyd gan bechod, rhwng dyn a Duw. Mae Iesu yn rhyddhau person o rwym (caethwasiaeth) pechod; ni all yr un person wneud hyn. **Sut mae’n gwneud hyn?** *‘Trwy ei waed,’* 6. Mae tywallt gwaed yn thema gyfarwydd yn y Beibl. Yn yr Hen Destament buasai’r arch offeiriad yn aberthu anifail perffaith dros bechodau’r bobl. Yn y T.N roedd y bobl yn cyflwyno eu haberthau yn y Deml er mwyn derbyn maddeuant, a gwneud hynny yn flynyddol. Ond aberth Iesu, gwaed yr Oen di-fai, sydd yn ddigon i lanhau’r pechadur unwaith ac am byth, a’i ryddhau o’i bechodau.

ii) **Ein gwneud yn deyrnas ac offeiriaid:** *‘Fe’n gwnaeth yn urdd frenhinol.’* Trwy Iesu, rydym yn rhan o Deyrnas Dduw, yn blant y Brenin! Mae galw ar y credadun i fyw fel plentyn y Brenin yn awr, gan roi heibio’r hen ffordd o fyw

gyda'i ddrwg a'i chwantau, a byw bywyd newydd gan amlygu 'caredigrwydd, cariad' ac ati. *'Fe'n gwnaeth yn ... offeiriaid i Dduw.'* Trwy farw ar y groes mae Iesu wedi agor y ffordd i ni ddod i bresenoldeb Duw, rydym yn offeiriaid iddo Ef. Gallwn ddod yn hyderus ger ei fron mewn gweddi a mawl. Cawn gyfle i offrymu'r hunan i'w wasanaeth Ef.

C. IESU YR ALFFA AC OMEGA.

"Myfi yw Alffa ac Omega," medd yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd i ddod, yr hollalluog.'

Beth a ddywed y geiriau yma am Dduw ac Iesu? Mae Duw yn dragwyddol. Yn Ioan 1, ceir y geiriau, *'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. ... Daeth pob peth i fod trwyddo ef,'* 1,3. Mae Iesu yn:

i) Dragwyddol: Cyn bod haul na lleuad na sêr, roedd Iesu yn bod. *"Myfi yw'r cyntaf a'r olaf,"* 17, medd Iesu, roedd yn y dechreuad.

ii) Creawdwr: *'Daeth pob peth i fod trwyddo ef,'* 3. Beth oedd Iesu'n gwneud nôl yn y dechrau? Creu'r byd a phob dim! Duw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan ar waith.

iii) Mae'n Rhoi Bywyd: *"Myfi yw'r ... Un byw; bîm farw, ac wele, yr wyf yn fyw byth bythoedd,"* 18. Mae Iesu yn

fyw, byth i brofi marwolaeth dim mwy. Mae'n fyw, ac am i ni rannu yn Ei fywyd bythol. Bywyd newydd sydd yn cychwyn pan wnawn gredu yn Iesu, ac sydd i'w brofi yn ei gyflawnder yn y nefoedd rhyw ddydd.

A ydym yn adnabod Iesu? Mewn byd sy'n llawn o anwiredd diolch mai Iesu yw'r tyst ffyddlon. Mewn byd lle ceir arweinyddion gormesol a chreulon, cofiwn mai Iesu yw Brenin y brenhinoedd. Mewn byd sy'n profi dioddefaint a marwolaethau diolch mai Iesu yw'r cyntaf i godi o'r marw, yr Un sydd yn fyw byth bythoedd.

Gweddi: O Dduw Dad, diolch am bob cynnal a chadw sydd wedi bod yn ein bywydau, yn y misoedd diwethaf yng nghanol pandemig. Prin iawn yw'r arwyddion bod pethau'n gwella, ond diolch am y newyddion yr wythnos hon am frechlyn (vaccine) a allai cynorthwyo yn y frwydr yn erbyn Covid.

Ynghanol byd o ansicrwydd ac anawsterau, a ninnau'n teimlo'n rhwystredig a digalon ar adegau, diolch am Iesu. Diolch mai Ef yw'r Gwirionedd, yr un dibynadwy y gellir ymddiried ynddo. Diolch mai Iesu yw'r Brenin Mawr, ac iddo ef y bydd rhaid i bob un blygu rhyw ddydd. A diolch mai Iesu yw'r 'Un byw', a'i fod yn cynnig bywyd bythol i bawb syn credu ynddo. Amen.

“I AM THE ALPHA AND OMEGA.”

Hymn: 944 ‘Amazing grace.’

Reading: Revelation 1:1-8, 17-18.

Message: What does this passage tell us about Jesus?

A. THE PERSON OF JESUS.

‘John ... grace to you and peace from ... Jesus Christ the faithful witness, the firstborn of the dead, and the ruler of kings on the earth,’ 5. **Who is Jesus?**

i) **The Faithful Witness:** Faithful here means reliable, a person you can trust and believe in, always speaking the truth. This is Jesus who declared, *“I am the way and the truth and the life,”* John 14. Jesus speaks the truth of His Father, “For this reason I have come into the world – to bear witness to the truth,” John 18:37.

ii) **The Firstborn of the Dead:** a) Jesus rose from the dead, never to experience death again; b) Jesus is the first to rise, but this is a guarantee that others will follow him.

iii) **The Ruler of Kings:** Jesus is the supreme monarch. There have been and will be great kings and rulers, but all will have to bow to Jesus one day.

B. THE WORK OF JESUS.

‘To him who loves us and has freed us from our sins by his blood and made us a kingdom, priests to his God and Father,’ 6. ‘Jesus **loves** us.’ Present tense! **How does Jesus show his love?**

i) **He frees us:** Jesus *‘has freed us from our sins by his blood,’* 5. Jesus as Son of God and Lord has authority to free us from the bonds of sin – no one else can! He is able to restore the relationship, broken by sin, between God and man. **How does he do so? ‘By his blood.’** The shedding of blood is found in the Old Testament with the high priest offering a perfect animal for the sins of the people. In the New Testament the people would offer their sacrifices at the Temple, so that they could receive forgiveness for their sins. This they did yearly. Jesus, the perfect Lamb of God, shed his blood, once and for all, so that sinners could be released from the bonds of sin. No longer slaves, but free!

ii) **He makes us a kingdom, priests to God:** Jesus *‘has made us a kingdom, priests to his God and Father,’* 6. By believing in Jesus we enter the kingdom of God. We are the children of the King and receive many blessings – his protection, an inheritance etc. Through Jesus we are also

priests to God. Jesus, by his death on Calvary, has opened the way for all who believe in him, to enter the presence of the King, God himself. As priests we can come before God with confidence, in prayer and praise, we are to offer to him our lives in service.

C. JESUS, THE ALPHA AND OMEGA.

What do these words tell us about God the Father and Jesus?

That God is eternal! John's gospel begins, "*In the beginning was the Word, and the Word was with God, and the Word was God ... all things were made through him,*" 1,3. Jesus is:

i) Eternal: Before there was anything, sun, moon or stars, Jesus was. Jesus says, "*I am the first and the last, (same as Alpha and Omega), and the living one. I died, and behold, I am alive for evermore,*" 17. Jesus, he is eternal.

ii) Creator: '*All things were made through him.*' No big bang, no cause and effect. God, Jesus created 'all things.'

iii) Jesus Offers New Life: Jesus said, "*I am alive for evermore,*" 18. He is alive today! Jesus, who '*frees us from our sins*' wants us to share in his resurrected life; a life which begins now, but is experienced in its fullness in heaven one day.

Do we know this Jesus? In a world full of untruth, Jesus is the faithful witness, the truth. In a world where kings and leaders abuse their power, Jesus is the King of kings. In a world that is experiencing suffering and death, Jesus is the resurrection and the life. He is '*the firstborn of the dead,*' offering new life to all who believe in Him.

Prayer: O Heavenly Father, thank you for keeping us safe during the recent months, with the fear of the pandemic around us. We give thanks for the recent news that a vaccine may be found soon, to help in the battle against the coronavirus, and to protect lives.

Amidst the uncertainty of this present time, when at times we feel confused and fearful, we give thanks for Jesus. We give thanks that he is the truth, one we can trust and believe in. We give thanks that he is the King of kings, and all will have to bow to him one day. We give thanks that he is 'the living one' and is 'alive for evermore.' Through Jesus we can receive new life, life everlasting in heaven one day. Thank you. Amen.